Y CYNGOR DYDD IAU, 24 MEDI 2026

Presenoldeb:

Y Cynghorwyr: Elin Walker Jones (Cadeirydd)
Delyth Lloyd Griffiths (Is-gadeirydd)

Craig ab Iago, Menna Baines, Rhys Parry, Stephen Churchman, Wendy Cleaver, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Gwion Emyr, Dylan Fernley, Jina Gwyrfai, John Brynmor Hughes, R. Medwyn Hughes, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, June Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Gareth Coj Parry, Geraint Parry, Arwyn Herald Roberts, Elfed P Roberts, Gareth Anthony Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams, Sasha Williams a Sian Williams.

Swyddogion:

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Sioned Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned) Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Siôn Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr:- Alan Jones Evans, Annwen Hughes, Huw Rowlands, Robert Glyn Daniels, Rheinallt Puw, Gwilym Evans, Huw Wyn Jones, Louise Hughes, Llio Elenid Owen, Beca Roberts a Dewi Owen.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2026 fel rhai cywir.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant personol ar gyfer Eitem 7 gan y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Beth Lawton, Elfed Williams, Dyfrig Siencyn, Elwyn Edwards, Wendy Cleaver, Gruffydd Williams, Elwyn Jones, John Pughe Roberts a Dafydd Davies.

4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlodd yr Is-gadeirydd gyda'r Cadeirydd yn dilyn ei phrofedigaeth ddiweddar. Diolchodd y Cadeirydd i bawb a fu'n ei chefnogi yn ystod y cyfnod hwn ac i Hosbis Dewi Sant a fu'n darparu gofal diwedd oes tyner a pharchus i'w mham. Cydymdeimlwyd â'r Pennaeth Cyllid yn dilyn ei brofedigaeth ddiweddar. Rhannwyd dymuniadau gorau i holl drigolion Gwynedd sydd yn wynebu sefyllfaoedd tebyg, a mynegwyd cydymdeimladau i bawb o fewn cymunedau'r Sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar

Croesawyd y Cynghorydd Rhys Parry i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor Llawn. Eglurwyd ei fod yn cynrychioli Ward Llanrug, yn dilyn isetholiad diweddar.

Llongyfarchwyd pawb a fu'n fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las, gan gynnwys:

- Dr Gareth Evans Jones, darlithydd Prifysgol Bangor, ar ennill y Fedal Rhyddiaith.
- Dr Caroline Jones, Pennaeth Gwasanaeth Seicoleg Clinigol Plant yng Ngwynedd, ar gyrraedd rownd derfynol Dysgwr y Flwyddyn.
- Penri Williams, yn enedigol o Borthmadog, ar ennill medal R Alun, yn dilyn 40 mlynedd o wasanaeth gwirfoddol yn cefnogi, cynnal a chyfoethogi diwylliant o fewn ei ardal leol.

Llongyfarchwyd y canlynol:

- Holl athletwyr Gwynedd a oedd yn rhan o dîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad, gan gynnwys Ela Letton-Jones o'r Felinheli am ennill medel arian yn y gystadleuaeth paranofio.
- Y Gwir Barchedig Dr Manon Ceridwen James ar gael ei sefydlu'n Esgob Bangor.
- Morgan Mace, o Garmel, am ennill gwobr Arwr Ifanc yn seremoni gwobrau Gwneud Gwahaniaeth y BBC.
- Leisa Gwenllian, sydd wedi cael ei dewis ar raglen Sêr Yfory Screen International.
- Pawb fu'n cymryd rhan yn nigwyddiadau diwylliannol dros yr haf. Canmolwyd cynrychiolaeth o'r Sir yn y Sioe Frenhinol eleni gan gynnwys cyfranogiad ffermwyr, busnesau a phobl ifanc.

Mynegwyd dymuniadau gorau i Elfyn Evans wrth iddo gymryd rhan yn ras olaf Pencampwriaeth Ralio y Byd yn Sardinia.

5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

6. CWESTIYNAU

(Cyhoeddwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau ymlaen llaw.)

1. **Cwestiwn Y Cynghorydd Dawn Lynne Jones**

Gan gyfeirio at y data diweddaraf ynghylch pobl ifanc 16-25 oed sy'n cysgu allan neu sydd wedi'u hasesu'n ddigartref yn fwriadol, pa asesiad y mae'r Aelod Cabinet wedi'i wneud o faint digartrefedd ymhlith pobl ifanc yng Ngwynedd? A yw'n fodlon bod polisïau a gwasanaethau presennol y Cyngor yn ddigonol, a pha gamau pellach sy'n cael eu cymryd i atal pobl ifanc rhag mynd yn ddigartref?

Ateb yr Aelod Cabinet Tai ac Eiddo, y Cynghorydd Paul Rowlinson

Nid oes unrhyw berson ifanc 16-25 oed wedi'i adnabod yn cysgu allan ar y stryd yng Ngwynedd ar hyn o bryd. Mae'r Adran Tai ac Eiddo yn comisiynu ystod o wasanaethau cymorth tai sydd wedi eu hanelu'n benodol ar gyfer pobl ifanc 16 i 25 oed. Mae'r gwasanaethau yma yn ymestyn o brosiectau galw-i-mewn, i gefnogaeth symudol yn y gymuned, yna i gynnig llety dros dro â chefnogaeth ac wedyn yn gefnogaeth symudol mewn eiddo â chefnogaeth wasgaredig yn y gymuned. Mae'r ystod yma o wasanaethau yn rhoi cylch cyfan o gefnogaeth i bobl ifanc.

Mae'r Cyngor yn comisiynu gwasanaeth allgymorth (outreach) drwy Tai Gogledd Cymru i adnabod ac ymateb i unrhyw achosion o gysgu allan. Pe canfyddir unigolyn yn cysgu allan, bydd y gwasanaeth allgymorth yn cysylltu â'r person ac yn cynnig cymorth i'w helpu i gael mynediad at wasanaethau tai a chefnogaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio'r system StreetLink, sy'n galluogi aelodau'r cyhoedd i roi gwybod am unigolion y maent yn amau eu bod yn cysgu allan. Caiff pob atgyfeiriad StreetLink ei ystyried, a lle bo'n briodol bydd swyddogion neu'r gwasanaeth allgymorth yn cynnig cymorth.

Mae GISDA a Cyfle yn darparu gwasanaethau cefnogaeth symudol i bobl ifanc ar draws y sir. Mae'r gefnogaeth yma yn rhan bwysig o'r ddarpariaeth ehangach o geisio atal digartrefedd trwy fynd i'r afael â materion cyn cyrraedd argyfwng. Fodd bynnag, mae amgylchiadau yn codi lle mae angen llety dros dro â chefnogaeth a chomisiynir hynny gan GISDA mewn sawl lleoliad ar draws y sir. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys defnydd hosteli ac unedau unigol gwasgaredig o lety ac mae canlyniadau positif iawn i'w gweld o'r cynlluniau hynny.

Ar hyn o bryd mae Cyfle a GISDA yn darparu gwasanaethau galw-i-mewn, ond daethpwyd i'r penderfyniad bod hwn yn faes lle y gellir ehangu a datblygu'r ddarpariaeth ac felly comisiynwyd gwasanaeth galw-i-mewn llawer mwy eang a chynhwysfawr nag o'r blaen. Yn dilyn proses dendro ddiweddar roedd Cyfle yn llwyddiannus ac mi fyddant yn darparu gwasanaeth galw-i-mewn sirol o'r 1af o Ragfyr. Rhan o'r cytundeb yma fydd canfod gwell dealltwriaeth o anghenion cefnogi pobl ifanc ac adnabod cyfleoedd i ddatblygu ac ehangu gwasanaethau ymhellach. Bydd y gwasanaeth galw-i-mewn hefyd yn cyflwyno ap newydd i ddefnydd pobl ifanc - "Showt" - sydd yn ddatblygiad cyffrous ac arloesol i'r sir, edrychwn ymlaen at ei weld pan fydd y cytundeb yn dechrau.

Mae'r Cyngor hefyd yn rhedeg gwasanaeth SPOA (Single Point of Access) sy'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Mae'r SPOA yn darparu llwybr ymyrraeth gynnar sy'n galluogi adnabod pobl ifanc sydd angen cymorth cyn gynted â phosibl a'u cyfeirio at y gwasanaethau mwyaf priodol yn unol â'u hanghenion unigol. Gall hyn gynnwys cyngor tai, cyfryngu

teuluol, gwasanaethau iechyd meddwl, cymorth camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau cyflogadwyedd, cyngor lles ac ystod o wasanaethau arbenigol eraill. Drwy gydlynu atgyfeiriadau a hwyluso mynediad at gymorth perthnasol, mae'r SPOA yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau cyn iddynt ddatblygu'n argyfwng tai ac yn cefnogi pobl ifanc i gynnal llety sefydlog lle bynnag y bo modd.

Mae swydd benodol o fewn yr Adran Addysg sy'n canolbwyntio ar waith ataliol mewn ysgolion a lleoliadau eraill, gyda'r nod o adnabod risgiau'n gynnar a chefnogi unigolion cyn i'w sefyllfa waethygu i'r pwynt o fod mewn perygl o ddigartrefedd.

Credaf bod y ddarpariaeth cefnogaeth tai ar gyfer pobl ifanc yn gynhwysfawr a grymus yng Ngwynedd a byddwn yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

2. **Cwestiwn Y Cynghorydd Elin Hywel**

Gwyddom fod tir sych, cryno (compact), sydd wedi caledu yn ystod tywydd sych eithafol yn methu amsugno dŵr ar gyfradd arferol. Gwyddom fod hyn yn cynyddu'r risg o ddŵr ar y wyneb yn sylweddol pam fo glaw mawr yn dilyn. Y flwyddyn hon bu'r Gorffennaf sychaf ers 190 o flynyddoedd. Bu i CNC ddatgan bod Cymru gyfan mewn sychder, ac roedd hyn yn cynnwys dalgylchoedd Gwynedd.

Er nad oes posib rhagweld gyda sicrwydd pa dywydd ddaw gyda'r hydref a'r gaeaf, gwyddom fod patrwm tywydd El Nino erwin i'w ddisgwyl y flwyddyn hon, a bod y patrwm tywydd yma yn cynyddu'r posibilrwydd o dywydd garw a gwlyb iawn yma yng Nghymru. Rydym wedi derbyn sawl rhybudd gan lywodraeth y DU a sefydliadau megis y Met Office i'r perwyl hwn.

Pa baratoadau ychwanegol traws adrannol sydd wedi ei gwneud y flwyddyn hon er mwyn ymateb i'r risg hysbys a chynyddol o dywydd gwlyb garw sydd yn cynyddu'r risg o lifogydd - ym Mhwllheli yn benodol, Gwynedd yn ehangach, yng ngolau ffactorau megis y tywydd a ddisgwylir a'r posibiliadau o ddŵr ffo ar ôl sychder (post-drought runoff) sydd yn cynyddu'r risg o lifogydd difrifol?

Yn ogystal, gan ystyried safbwynt cyhoeddedig y Cyngor ar fater o lifogydd sydd yn nodi "mewn sawl achos mae atal yn amhosibl" a phwyslais y Cyngor ar beth allwn ni fel unigolion wneud i atal llifogydd yn ein cartrefi, pa gyfathrebu sydd wedi ei gynllunio ar gyfer y flwyddyn hon i sicrhau bod trigolion yn deall y risg i'w heiddo penodol, yn gwybod beth i'w wneud o flaen llaw os daw llifogydd, a lle gallent gael cefnogaeth?

Ateb yr Aelod Cabinet dros Briffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd, y Cynghorydd June Jones

Diolch am y cwestiwn. Mae'n bwynt dilys bod priodweddau pridd yn gallu newid yn ystod cyfnodau hir o sychder, gyda'r tir yn mynd yn fwy cryno ac mewn rhai amgylchiadau yn amsugno llai o ddŵr. Gall hyn arwain at gynnydd dros dro mewn dŵr wyneb yn dilyn glaw trwm. Fodd bynnag, yn dilyn y cyfnod o dywydd mwy anwadal a gwlypach ers diwedd mis Awst, mae'n debygol fod llawer o'r tir

bellach wedi dychwelyd yn nes at gyflwr mwy arferol. Wrth symud i mewn i'r gaeaf, y prif bryder yn aml fydd tir sydd eisoes wedi ‘waterlogged’ gan law blaenorol ac sydd felly â llai o allu i ymdopi â rhagor o law trwm.

O ran parodrwydd y Cyngor, mae trefniadau sefydledig mewn lle gyda ni fel gwasanaeth cynnal priffyrdd ac asedau dŵr fel y gallwn ymateb i ddigwyddiadau tywydd garw a llifogydd. Yn ogystal â'r trefniadau hyn, mae gwaith pellach wedi bod yn cael ei ddatblygu eleni i gryfhau ein gallu i ragweld ac ymateb i risgiau llifogydd. Mae hyn yn cynnwys datblygu templedi rhagolygon glaw manwl fesul ardal gan ddefnyddio data o systemau monitro fel synwyryddion Hydromaster, cryfhau trefniadau rheoli asedau llifogydd yn ystod digwyddiadau, a blaenoriaethu rhaglenni gwaith i wella ac uwchraddio rhai sgriniau malurion ("debris screens") mewn lleoliadau ble bu problemau yn y gorffennol.

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i gryfhau'r broses o ddefnyddio gwybodaeth a rhybuddion gan y Swyddfa Dywydd a Chyfoeth Naturiol Cymru. Er bod trefniadau clir eisoes mewn lle ar gyfer ymateb i stormydd arfordirol, rydym yn parhau i ddatblygu ein trefniadau ar gyfer digwyddiadau glaw trwm. Mae hyn yn cynnwys archwilio sut y gellir defnyddio data hanesyddol a gwybodaeth leol i sefydlu trothwyon glaw sy'n debygol o achosi problemau mewn ardaloedd penodol, gan helpu i sbarduno trafodaethau ac ymatebion gweithredol ar yr adeg briodol.

Yn achos Pwllheli yn benodol, rydym yn awyddus i sicrhau bod cynlluniau lleol yn parhau'n gyfredol ac yn berthnasol. Mae adolygu a diweddaru trefniadau cymunedol lleol ar gyfer llifogydd yn parhau i fod yn elfen bwysig o waith paratoi'r Cyngor a'i bartneriaid.

O ran cyfathrebu â'r cyhoedd, rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod trigolion yn deall y risgiau sy'n berthnasol i'w hardaloedd ac yn gwybod pa gamau y gallent eu cymryd i baratoi. Byddwn yn ystyried cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Swyddfa Dywydd i atgoffa trigolion, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â hanes o lifogydd, am y camau ymarferol y gallent eu cymryd cyn y gaeaf. Gallai hyn gynnwys cyfeirio pobl at wybodaeth am gynlluniau llifogydd personol, gwasanaethau rhybuddio, a ffynonellau cymorth a chyflenwadau lleol a allai fod o gymorth pe bai digwyddiad llifogydd yn digwydd.

Mae’r tîm Rhybuddio a Hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn rheoli ac yn darparu’r gwasanaeth rhybuddio llifogydd lleol i bartneriaid proffesiynol ac i’r cyhoedd, ochr yn ochr â pharodrwydd ar gyfer digwyddiadau.

Maent hefyd yn arwain ar gydlynu ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn dilyn llifogydd, gan sicrhau bod gweithgareddau adfer a dysgu gwersi yn cael eu rheoli’n effeithiol.

Er nad yw'n bosib atal pob digwyddiad llifogydd, ein nod yw parhau i gryfhau ein trefniadau monitro, ein trefniadau ymateb a'n gwaith gyda chymunedau er mwyn lleihau'r risgiau ble bo modd a sicrhau ymateb cydlynol pan fydd tywydd garw yn digwydd.

Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Elin Hywel

Diolch am y wybodaeth defnyddiol iawn. Rwy'n falch o glywed bod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu trothwy glawiad penodol ar gyfer gwahanol ardaloedd, gan fod hyn yn bwysig. Ond, o ystyried y risgiau a drafodwyd, rwy'n gobeithio bydd modd symud yn gyflym o'r cam archwilio at weithredu.

Yn fy nghwestiwn gwreiddiol, gofynnais pa baratoadau ychwanegol trawsadrannol sydd wedi cael eu gwneud eleni. Nid wyf yn teimlo bod hyn wedi cael ei ateb yn llawn. Mae angen i drigolion wybod bod y Cyngor yn barod at beth fydd yn digwydd os daw tywydd eithriadol. Felly, a all yr Aelod Cabinet gadarnhau ba gamau ychwanegol bydd yn cael eu cymryd cyn y gaeaf, a sut bydd y gwaith hwn yn cael ei gydlynu ar draws adrannau'r Cyngor?

Fel yr awdurdod llifogydd lleol arweiniol, sut y bydd y Cyngor yn rhybuddio trigolion am lifogydd dŵr wyneb, o ystyried nad yw rhybuddion llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cwmpasu'r risg hon?

Beth fydd yn sbarduno'r rhybuddion hyn a sut bydd trigolion yn cael gwybod o flaen llaw, beth i'w wneud a ble i gael cymorth?

Ateb yr Aelod Cabinet dros Briffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd, y Cynghorydd June Jones

Diolch am y cwestiwn atodol. Mae paratoi at dywydd eithriadol yn waith parhaus ar draws nifer o wasanaethau'r Cyngor a'n partneriaid. Fel awdurdod llifogydd lleol arweiniol, rydym yn gweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, sydd yn gyfrifol am gyhoeddi rhybuddion llifogydd swyddogol ble'n berthnasol.

Yn ogystal â'r trefniadau rhybuddio hyn, rydym yn parhau i adolygu ac archwilio asedau ein hunain, gan gynnwys cwlferi, draeniau, sgriniau malurion a safleoedd ble rydym yn ymwybodol o broblemau neu beryglon hanesyddol. Mae gwaith cynnal a chadw ac ymyrraeth dargedig yn cael eu blaenoriaethu yn y lleoliadau hyn er mwyn lleihau'r risg gymaint â phosib, cyn y gaeaf.

Yn weithredol, mae'r Cyngor hefyd, drwy'r gwasanaeth Cynnal Priffyrdd yn paratoi ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau drwy drefniadau arferol sydd gennym mewn lle. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod bagiau tywod ar gael ym mob 'depot' strategol ledled y Sir, er mwyn gallu ymateb yn gyflym i broblemau lleol, yn ystod cyfnodau o law trem neu lifogydd.

Er na allwn atal pob digwyddiad tywydd eithafol, ein nod yw cyfuno gwybodaeth a rhybuddion gan Gyfoeth Naturiol Cymru, gyda monitro lleol, archwilio a chynnal ein hasedau a pharodrwydd gweithredol effeithiol fel bod y Cyngor yn y sefyllfa orau posib i ymateb a chefnogi cymunedau trwy gydol y gaeaf.

3. **Cwestiwn Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

O ystyried:

- Bod y cynllun datblygu lleol presennol yn seiliedig ar ragolygon anghywir ynghylch twf y boblogaeth a nifer y swyddi yn ystod cyfnod

y cynllun;
- A bod swyddogion cynllunio Gwynedd yn sylweddoli hynny ac wedi cyfleu hynny mewn cyflwyniadau i aelodau etholedig;
- A bod y cymdeithasau tai yn sgramblo i gyflwyno ceisiadau cynllunio am stadau tai cymdeithasol ym mhentrefi a threfi Llŷn ac Eifionydd cyn i gyfnod y cynllun presennol ddod i ben;
- A bod maint a graddfa'r cyfryw ddatblygiadau'n peryglu gwead ieithyddol cymdeithasol bregus cymunedau hynny - Botwnnog, Nefyn, Trefor, Chwilog, Y Ffôr, Abererch - ac yn destun gwrthwynebiad lleol cryf;
- Ond bod dwylo'r swyddogion a'r pwyllgor cynllunio wedi eu rhwymo gan y cynllun presennol, er gwybod ei fod yn gorwedd ar sail dystiolaeth amryfus;

Pa gamau y bwriedir eu cymryd i dorri'r cylch absŵrd yma o anwiredd?

Ateb yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd, y Cynghorydd Craig ab Iago

Cyn ymateb i'r cwestiwn, mae'n bwysig cyfarch camargraff yn rhai o'r pwyntiau sydd wedi eu codi yn ogystal â'r cwestiwn a ofynnir.

O ran Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn a gafodd ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn yn 2017, roedd y Cynllun yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r rhagolygon oedd ar gael ar y pryd o ran materion yn cynnwys twf poblogaeth a niferoedd swyddi. Mae newidiadau mewn amgylchiadau oherwydd rhesymau amrywiol yn anorfod yn ystod cyfnod 15 mlynedd Cynllun, ac mae hyblygrwydd o fewn y Cynllun sy'n golygu fod modd ymateb i hynny. Mae hynny wedi ac yn parhau i ddigwydd yn ystod cyfnod y Cynllun, ac rwyf yn hyderus mai dyna sydd wedi ei gyfleu mewn cyflwyniadau i Aelodau.

I gyfarch byrdwn y cwestiwn, does dim dwywaith fod Gwynedd yn wynebu argyfwng tai, gyda theuluoedd ifanc yn methu cael mynediad at dai addas yn eu cymunedau. Mae hynny'n cynnwys pob math o gartrefi gwahanol sy'n cynnwys tai marchnad agored, tai fforddiadwy a thai cymdeithasol.

Fel Cyngor, rydym yn arwain y ffordd drwy sicrhau fod ystyriaeth o'r Gymraeg yn rhan allweddol o bolisïau cynllunio lleol, gydag arweiniad manwl yng Nghanllaw Cynllunio Atodol y Cynllun Datblygu presennol ar sut i roi ystyriaeth i'r iaith wrth ymdrin â cheisiadau am ddatblygiadau newydd.

Mae pob cais yn cael ei asesu'n unigol ac ar ei haeddiant yn erbyn polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol a pholisïau cenedlaethol, gan asesu'r dystiolaeth berthnasol, a rhoi ystyriaeth i'r holl faterion cynllunio perthnasol gan gynnwys yr angen am dai ac ystyriaeth o'r iaith Gymraeg.

Fel y bydd yr holl aelodau'n ymwybodol, mae gwaith yn bwrw ymlaen ar Gynllun Datblygu Lleol newydd gan bwysleisio bod yn rhaid i'r Cynllun fod yn seiliedig ar dystiolaeth ar draws sawl maes gwaith, a bydd ystyriaeth o'r Gymraeg yn ganolog i'r broses o'i baratoi.

Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts

Deallaf fod gan y Cabinet rôl arweiniol yn y Bartneriaeth Dai, sy'n gwneud penderfyniadau mawr o fewn y maes hwn. Sut mae cyfiawnhau bod yn glustfyddar a di-ystyrru barn Cynghorwyr lleol, Cynghorau Cymuned, deisebau gan drigolion a gwrthwynebiadau ar sail data cyfrifiad, sy'n dangos bod maint a graddfa'r datblygiadau, yn mynd i wanhau'r Gymraeg yn Llŷn ac Eifionydd.

Ateb yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd, y Cynghorydd Craig ab Iago

Nodwyd nad oes modd darparu ateb ffeithiol i'r cwestiwn atodol, gan ei fod yn seiliedig ar farn unigol.

4. **Cwestiwn Y Cynghorydd Gruffydd Williams**

Yn 2020 Dywedodd y Cynghorydd , a chyn arweinydd Cyngor Gwynedd , Dyfrig Siencyn, Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru: "Rydym yn hynod falch o gefnogi'r argymhelliad hwn er mwyn galluogi'r pum prosiect cyffrous yma i symud ymlaen i'r cam nesaf o sicrhau arian o'r Cynllun Twf. Maen nhw i gyd yn brosiectau trawsnewidiol sydd â'r potensial i gyfrannu i economi Gogledd Cymru trwy ddod a buddsoddiad ychwanegol a chyfleoedd gwaith mewn sectorau allweddol. Mae'r prosiectau hefyd yn adlewyrchu ein gweledigaeth ni i hybu ffyniant economaidd sy'n arloesol a chynaliadwy yn yr ardal a hynny trwy annog cydweithio rhwng y sector cyhoeddus a phreifat."

Ia ba raddfa y bu i'w honiadau am greu hyd at 4,300 o swyddi droi yn fethiant ysgubol?

Ateb yr Aelod Cabinet dros Economi a Chymuned, y Cynghorydd R Medwyn Hughes

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cydnabod fod Cynllun Twf Gogledd Cymru wedi wynebu llawer o heriau ac oedi ers i'r Cytundeb Terfynol gael ei arwyddo gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain ym mis Rhagfyr 2020. Er bod rhai o'r ffactorau hyn yn fewnol, gan gynnwys amserlenni prosiect gor-obeithiol a heriau cynllunio, mae ffactorau allanol hefyd wedi cyfrannu at oedi gan gynnwys effaith economaidd Covid-19, gwrthdaro rhyngwladol a phwysau chwyddiant costau. Yn 2025, cytunodd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd ar nifer o newidiadau i'r Cynllun Twf er mwyn gwell cyfradd y gweithrediad gan gynnwys tynnu prosiectau oedd wedi oedi, creu rhestr wrth gefn o brosiectau posibl a chytuno proses sicrwydd a chymeradwyo mwy syml. Mae'r newidiadau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar berfformiad gyda nifer yr achosion busnes a gymeradwywyd yn cynyddu'n sylweddol.

Mae'n bwysig cofio mai rhaglen 15-mlynedd ydi hon ac mae 10 mlynedd o waith buddsoddi eto i ddod i gyflawni deilliannau. Hyd at ddiwedd chwarter 1 2026/27 mae yna 8 prosiect yn cael eu cyflawni ar draws Gogledd Cymru gan gynnwys y prosiectau canlynol yng Ngwynedd - Parc Bryn Cegin, Canolfan Prosesu Signal Digidol a'r Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol gyda Phrifysgol Bangor a'r elfen Llaeth Defaid Cymru o'r prosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon. Mae 10 prosiect ychwanegol wedi cymeradwyo ar gyfer y rhanbarth ond heb eto symud fewn i gyflawni. Er bod y ffigurau buddsoddiad a chreu swyddi yn weddol isel ar

hyn o bryd, byddant yn cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd nesaf wrth i'r prosiectau sydd yn cael eu cyflawni symud drwy'r gwaith adeiladu i'w camau gweithredol. Mae'r 18 prosiect yma wedi gwneud ymrwymiadau i greu 2003 swyddi erbyn 2036 gyda'r gweddill o'r targed i'w gyflawni gan brosiectau sydd eto i gael eu cymeradwyo.

Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Gruffydd Williams

Gan ystyried y diffyg twf ym mhoblogaeth, a bregusrwydd y Gymraeg, onid oes rheidrwydd bellach i wneud Cynllun Economaidd Lleol sy'n seiliedig ar realiti'r cwymp mewn genedigaethau, yn hytrach na breuddwydion ffôl am dwf.

Ateb yr Aelod Cabinet dros Economi a Chymuned, y Cynghorydd R Medwyn Hughes

O'r cynlluniau sydd ar y gweill, bydd 11 cynllun buddsoddi yn uniongyrchol yng Ngwynedd. Os bydd y cynlluniau hyn yn cael eu gwireddu, bydd dros £57miliwn o arian Cynllun Twf wedi ei fuddsoddi yng Ngwynedd yn ystod y cyfnod, gan arwain at gyfanswm buddsoddiad o bron i £115miliwn yng Ngwynedd dros y 15 mlynedd nesaf. Mae hwn yn swm sylweddol a rhagwelir bod y buddsoddiad yn arwain at greu dros 650 o swyddi ar draws y Sir. Diolchwyd am y sylwadau diddorol a gyflwynwyd o fewn y cwestiynau.

5. **Cwestiwn Y Cynghorydd Gwynfor Owen**

Mae pryderon anferth yn ardal Llanbedr ac yn ehangach am be syn digwydd ym Maes Awyr Llanbedr. Mae'r sŵn annifyr maer dronau yn ei wneud wrth hedfan mewn cylchoedd o amgylch y pentre' yn peri gofid mawr i'r trigolion ynghyd ar ymwelwyr. Mae pryder hefyd ynglŷn ar ddefnydd militaraidd o'r safle a all roi Llanbedr mewn peryg o fod yn darged i elynion y Deyrnas Gyfunol. Gai ofyn felly i Gyngor Gwynedd pa fonitro/oruchwyliaeth syn digwydd o ddefnydd y safle unai gan y Cyngor neu unrhyw asiantaeth arall?

Ateb yr Aelod Cabinet dros Economi a Chymuned, y Cynghorydd Craig ab Iago

Nid yw Cyngor Gwynedd yn monitro gweithgareddau dydd i ddydd tenantiaid Maes Awyr Llanbedr nac yn cynnal goruchwyliaeth uniongyrchol o natur eu gweithrediadau. Mae gwybodaeth gyffredinol ar gael ynghylch pa gwmnïau sydd wedi'u lleoli ar y safle, ond nid oes gan y Cyngor fynediad at wybodaeth fanwl am eu gweithgareddau na'u cwsmeriaid.

Mae hyn yn rhannol oherwydd trefniadau masnachol a chyfrinachedd sydd mewn lle rhwng y landlord a'r tenantiaid. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i wneud sylwadau manwl ar natur y gwaith sy'n cael ei gyflawni gan gwmnïau unigol ar y safle.

O ran y cwestiwn am fonitro neu oruchwylio'r safle, nid yw'r Cyngor yn cynnal rhaglen fonitro benodol o ddefnydd gweithredol y maes awyr. Fodd bynnag, mae gweithgareddau ar y safle yn ddarostyngedig i'r fframweithiau rheoleiddio a thrwyddedu perthnasol sy'n berthnasol i'r gweithredwyr a'u gweithgareddau.

Anogwyd trigolion i gysylltu gyda'r Cyngor gydag unrhyw bryderon a chwynion, fel bod modd gweithredu arnynt.

Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Gwynfor Owen

Diolch yn fawr iawn am yr ymateb. Er bod yr ateb yn dangos yn glir bod diffyg democratiaeth leol yma, sy'n golygu na all Cyngor Gwynedd edrych yn ddyfnach i'r hyn sy'n digwydd. O gofio bod Llywodraeth Cymru fel perchnogion y safle, a'r ffaith eu bod wedi rhoi miloedd o bunnoedd mewn grantiau i'r maes awyr yn ddiweddar er mwyn hybu'r economi, nid oes unrhyw swyddi wedi cael eu cyflwyno i drigolion lleol. Gofynnaf a wnaiff y Cyngor ysgrifennu i'r Llywodraeth i ofyn iddynt hwy pa fonitro neu oruchwylio sydd wedi ei wneud ar yr hyn sydd yn digwydd ar y safle, a pha monitro sydd wedi digwydd o'r grantiau sydd wedi cael eu rhoi i'r safle? Ydi'r grantiau wedi cael ei ddefnyddio yn gywir?

Ateb yr Aelod Cabinet dros Economi a Chymuned, y Cynghorydd Craig ab Iago

Cytunwyd gyda'r sylwadau a wnaed yn y cwestiwn atodol. Sicrhawyd bydd trafodaethau yn mynd yn rhagddo er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle o'r ffynhonnell gywir, er mwyn llythyru'r Llywodraeth.

6. **Cwestiwn Y Cynghorydd Rhys Tudur**

O ystyried llesiant plant sy'n byw yn gyfartal rhwng dwy aelwyd a diffyg eglurder polisi ar gyfer yr amgylchiadau hynny, yma fodd y mae'r Cyngor am ac yn ystyried y ddwy aelwyd yn gyfun wrth ymdrin â chludiant plant i'r ysgol a'r cynllun seddi gweigion?

Ateb yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Cynghorydd Dewi Jones

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod nifer cynyddol o blant yn byw rhwng dau gartref ac yn rhannu eu hamser yn gyfartal rhwng y ddwy aelwyd. Wrth weithredu'r Polisi Cludiant Addysg a'r Cynllun Seddi Gweigion, fodd bynnag, mae angen mabwysiadu trefn sy'n glir, yn gyson ac yn deg i bob teulu. Mae'r polisi felly yn defnyddio un prif gyfeiriad preswyl wrth asesu cymhwysedd.

Mae'r dull hwn yn osgoi'r angen i geisio cyfrifo hawliau ar sail dau gyfeiriad neu bwynt canolog rhwng dau gartref, a fyddai'n gymhleth iawn i'w weinyddu ac yn debygol o arwain at anghysondebau. Mae hefyd yn ddull sydd wedi ei hen sefydlu ac a ddefnyddir yn eang gan awdurdodau lleol eraill.

Lle mae plentyn yn rhannu ei amser rhwng dau gartref, mae'r Cyngor yn dibynnu ar y prif gyfeiriad preswyl a ddefnyddir at ddibenion gweinyddol ac addysgol. Gall hynny gynnwys y cyfeiriad sy'n cael ei gydnabod ar gofnodion swyddogol megis Budd-dal Plant, cofrestriad ysgol neu ddogfennau swyddogol eraill. Drwy weithredu ar sail un prif gyfeiriad, gall y Cyngor sicrhau bod y polisi'n cael ei gymhwyso'n gyson ac yn deg ar draws y sir gyfan.

Ni chytunwyd bod y polisi yn aneglur, gan nodi bod llawer mwy o eglurder wedi

cael ei gynnwys yn y polisi cyfredol.

Cadarnhawyd bod yr Adran yn ymrwymo i barhau i gynnal trafodaethau ar y pwnc hwn, fel a wnaed yn y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ddiweddar yn ogystal ag ymgynghoriad cyhoeddus.

Ystyriwyd nad oedd canfod pwynt daearyddol rhwng dau aeliwyd yn ymarferol bosib a gallasai greu dryswch i'r Cyngor a theuluoedd.

Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Rhys Tudur

O ystyried bod Cymal 1.55 o Ddarpariaeth Statudol Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr yn dweud, lle bod gan ddysgwyr breswyliad deuol, dylid ystyried y ddau leoliad fel cartref arferol y dysgwr.

A ddylai'r polisi cludiant newydd gael ei adolygu fel nad yw'r pwyslais cyfredol, ar un prif gyfeiriad gweinyddol, yn rhoi gormod o ryddid i swyddogion unigol ddehongli'r polisi mewn ffordd benodol, a rhoi llai o ystyriaeth i'r ail fan breswyl, neu'r ail fan breswyl gyda'i gilydd, wrth asesu cymhwysedd am gludiant, a drwy hynny, yn rhoi plant sydd â phreswyliad deuol, a phreswyliad deuol cytbwys, o dan anfantais?

Ateb yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Cynghorydd Dewi Jones

Eglurwyd yn y gorffennol, nid oedd unrhyw waith yn cael ei weithredu ar gyfer preswyliad deuol. Erbyn hyn, mae ystyriaeth o 5 milltir wedi cael ei nodi o fewn y polisi. Golyga hyn bod y Cyngor yn rhoi mantais i ddysgwyr sydd â phreswyliad deuol, ac yn ystyried bod ganddynt ddau gartref.

Gofynnwyd sut byddai gweithredu'r newidiadau a gynigwyd yn ymarferol, gan ei fod yn creu dryswch. Mewn byd delfrydol, byddai mwy yn cael ei wneud i gefnogi trigolion, ond cydnabuwyd nad oes cyflawni popeth. Bodlonwyd bod mwy o ystyriaeth wedi cael ei roi i'r teuluoedd hyn, gan gadarnhau bod angen parhau i ddarparu polisïau rhesymol.

Ymhelaethwyd bod yr Adran yn parhau i gynnal trafodaethau ar y mater hwn, gan gadarnhau ei fod yn agored i newidiadau cadarnhaol er mwyn cynnig gwasanaeth teg.

7. **Cwestiwn Y Cynghorydd Beca Roberts**

Gofynnwyd y cwestiwn gan y Cadeirydd yn absenoldeb y Cynghorydd Beca Roberts.

Mae nifer o'm hetholwyr wedi cysylltu â mi gyda phryderon ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu canolfannau data yng Ngwynedd, yn enwedig yng ngoleuni dynodi Trawsfynydd yn safle allweddol o fewn Parth Twf Deallusrwydd Artiffisial Gogledd Cymru. Mae fy etholwyr yn gofyn pa fesurau diogelu fydd ar waith i sicrhau nad yw datblygiadau o'r fath yn dod yn rhai echdynnol yn unig; gan ddefnyddio ein tir, ein hadnoddau ynni a'n dŵr tra bod y buddion economaidd i raddau helaeth yn gadael yr ardal.

A all yr Aelod Cabinet nodi a yw'r Cyngor yn datblygu unrhyw fframwaith neu ddisgwyliadau penodol ar gyfer datblygiadau canolfannau data yng Ngwynedd, fel y byddant, os daw'r datblygiadau hyn yma, yn sicrhau budd gwirioneddol a pharhaol i'n cymunedau? Yn benodol, sut y bydd y cyngor yn sicrhau bod disgwyliadau o ran budd economaidd lleol, cyflogaeth, seilwaith a'r defnydd o adnoddau lleol yn cael eu bodloni, a sut y bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn gymesur ag anghenion a blaenoriaethau cymunedau Gwynedd yn hytrach na gwasanaethu galw allanol yn bennaf?

Ateb yr Aelod Cabinet dros Economi a Chymuned, y Cynghorydd R Medwyn Hughes

'Nid oes fframwaith ar gyfer datblygu canolfannau data ar safle Parc Gwyddoniaeth Trawsfynydd mewn lle eto.

Mae'n bwysig tynnu sylw nad oes unrhyw fframwaith ddatblygu mewn lle ar gyfer Canolfannau Data yng Nghymru ar hyn o bryd, yn wahanol i Loegr a'r Alban. Mae canllawiau yno sydd yn cael eu defnyddio wrth ystyried ceisiadau cynllunio.

Byddai pob cais am ddatblygiad newydd ar safle yng Ngwynedd yn cael ei asesu'n unigol ac ar ei haeddiant yn erbyn polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol a pholisïau cenedlaethol, gan asesu'r dystiolaeth berthnasol, a rhoi ystyriaeth i'r holl faterion cynllunio, gan gynnwys ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Felly, drwy asesu'r holl ystyriaethau cynllunio perthnasol, mae effeithiau posib unrhyw ddatblygiad newydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses o ddelio gyda'r cais cynllunio.

Er bod cais Parth AI Gogledd Cymru yn gwneud cyfeiriad at gyfle i ystyried datblygiad canolfan data ar safle Trawsfynydd yn y dyfodol, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gynnig penodol ar gyfer datblygu canolfan ddata ar y safle ar hyn o bryd.

Cam un sefydlu Parc Gwyddoniaeth Trawsfynydd ydi sefydlu Canolfan Sgiliau, Busnes ac Arloesedd ar safle. Nod y cynllun ydi gwarchod a chynnal swyddi o ansawdd sydd yn Nhrawsfynydd; yna gweithio gyda phartneriaid i adnabod cyfleoedd newydd ar gyfer y dyfodol. Bydd y ganolfan yma yn ofod i fusnesau bychan sefydlu a datblygu gyda chefnogaeth buddsoddwyr a phartneriaid arbenigol. Bydd y ganolfan hefyd yn gatalydd i ddatblygu parthau gwahanol ar y Parc Gwyddoniaeth dros gyfnod o flynyddoedd er mwyn paratoi ar gyfer y cyfnod pan fydd gwaith dadgomisiynu ar safle yn dod i ben. Mae gwaith ymchwil ar barciau gwyddoniaeth yn dangos pa mor allweddol ydi gwreiddio'r gwaith yn lleol a thyfu'n raddol dros gyfnod o amser; gyda sgiliau lleol ac arloesedd yn gyrru'r gwaith. Dylid ei ystyried fel buddsoddiad hir dymor, a gall gymryd hyd at 25 mlynedd i gyflawni ei lawn botensial.

Mae swyddogion Cyngor Gwynedd wedi cychwyn trafodaeth gyda swyddogion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i ddeall mwy am yr hyn fyddai'n addas i'w ddatblygu ar y safle i'r dyfodol.

Mae achos busnes Trawsfynydd yn dangos y bydd y gwaith o adnabod opsiynau

datblygu addas ar gyfer gweddill o'r tir er mwyn cyflawni'r weledigaeth hir dymor yn digwydd rhwng 2027 a 2029 a bydd sicrhau fod buddion lleol amlwg yn ganolog i'r gwaith yma.

Fe gofiwch ein bod wedi mabwysiadu Strategaeth Economi Gwynedd 2035 yn ein cyfarfod mis Mai. Mae'r uchelgais yn y ddogfen yma yn glir; creu economi arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb. Ond nid twf economaidd yn unig yw'r nod. Rydym eisiau gweld economi sy'n cefnogi ein cymunedau, yn cadw mwy o fudd yn lleol, ac yn helpu pobl i fyw ac i ffynnu yma yng Ngwynedd. Dyma fyddwn yn ei hyrwyddo ar gyfer safle

7. ARDOLL TWRISTIAETH

Atgoffodd y Cadeirydd nad oes modd gwneud penderfyniad o blaid neu yn erbyn yr ardoll o fewn y cyfarfod hwn, gan nodi'r angen i rannu barn ar rinweddau'r ardoll yn unig. Pwysleisiwyd bydd cyfle yn y dyfodol i gynnal trafodaeth bellach.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet dros Economi a Chymuned, Y Cynghorydd R Medwyn Hughes.

Atgoffwyd bod y Cyngor Llawen wedi cytuno yn ei gyfarfod ar 14 Mai 2026 i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y posibilrwydd o gyflwyno Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd. Ymhelaethwyd mai'r bwriad oedd casglu barn trigolion, busnesau, ymwelwyr a rhanddeiliaid cyn gwneud penderfyniad. Cadarnhawyd bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal rhwng 20 Mai a 26 Gorffennaf eleni gan nodi bod y cyfnod ymgynghori wedi cael ei ymestyn 11 diwrnod yn ychwanegol yn Dilyn sylwadau a chais gan Bartneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035, yn ystod eu cyfarfod arbennig i drafod y mater ar 12 Mehefin 2026. Diolchwyd I bawb a gymrodd rhan o fewn yr ymgynghoriad cyhoeddus, gan ei fod yn caniatáu i ddeall yr effaith byddai unrhyw gefnogaeth neu wrthwynebiad yn ei gael ar gymunedau.

Cadarnhawyd bod 6,856 o ymatebion wedi ei gyflwyno i'r ymgynghoriad, sydd yn sylweddol uwch na nifer o ymatebion i awdurdodau lleol cyfagos, megis 2,000 o ymatebion ym Môn a 1,300 o ymatebion yng Nghonwy. Nodwyd bod cynnwys yr ymatebion yn gymysg a bod ystyriaethau cychwynnol yn awgrymu bod trigolion yn cefnogi'r bwriad, a busnesau ac ymwelwyr yn gwrthwynebu.

Diolchwyd i bob cyfrannwr am ddarparu barn a thystiolaeth ar:

- Effaith economaidd bosibl ar fusnesau twristiaeth
- Effaith ar ymwelwyr a phenderfyniadau teithio
- Y defnydd mwyaf priodol o unrhyw incwm a gesglir
- Effaith ar gymunedau lleol, yr amgylchedd a'r Gymraeg
- Sut y gellid gweithredu'r ardoll yn effeithiol yng Ngwynedd
- Barn ar gefnogaeth I gyflwyno Cynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd

Pwysleisiwyd yr angen i oedi cyn gwneud penderfyniad ar gyflwyno Ardoll Twristiaid yng Ngwynedd, er mwyn cael amser digonol i brosesu pob ymateb a chanfod y prif themâu sydd yn effeithio cymunedau. Nodwyd bod hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod unrhyw wybodaeth bellach yn cael ei wneud

gyda gwybodaeth gyflawn ar gael.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Mewn ymateb i ystyriaeth am amserlen benodol i ail-gyflwyno adroddiad i'r Cyngor Llawn, eglurodd yr Aelod Cabinet nad oes amserlen bendant wedi cael ei lunio hyd yma, gan bwysleisio'r angen i sicrhau bod amser digonol yn cael ei roi i bwyso a mesur cynnwys pob ymatebiad. Ystyriwyd bod awdurdodau lleol cyfagos eisoes wedi dod i benderfyniad ar y mater, ond teimlwyd bod angen arafu'r broses yma er mwyn cael y darlun llawn. Derbyniwyd sylwad gan Aelod y byddai hyn yn gyfle da i edrych ar unrhyw arfer dda a phenderfyniadau o awdurdodau cyfagos, er mwyn sicrhau bod y penderfyniad a gweithdrefnau cywir yn cael eu mabwysiadu yng Ngwynedd.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

Cytunwyd i dderbyn adroddiad cyflawn i benderfynu a ddylid cyflwyno Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd a'i peidio unwaith y bydd y gwaith o ddadansoddi, ystyried ac ymateb i gynnwys yr Ymgynghoriad wedi ei gwblhau'n llawn a phriodol.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL STRATEGOL DIOGELU 2025-26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chadeirydd y Panel Strategol Diogelu, Y Cynghorydd Dewi Jones, gan gadarnhau mai pwrpas yr adroddiad yw darparu diweddariad ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni yn y Panel Strategol Diogelu yn ystod 2025/26, a chyflwyno adolygiad 'r polisi diogelu, i holl aelodau'r Cyngor.

Atgoffwyd bod yr adroddiad blynyddol hwn wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gofal ym mis Mehefin.

Nodwyd bod Gwaith y Panel yn uno Adrannau Plant a Chefnogi Teuluoedd, Oedolion Iechyd a Llesiant, Addysg ac elfennau o'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol, er mwyn trafod materion sydd yn ymwneud â diogelu a sut mae gwarchod plant ac oedolion yn y ffordd orau bosib.

Diolchwyd i holl staff y Cyngor sydd wedi bod yn weithgar iawn o few neu dimoedd a gwasanaethau er mwyn cyflawni'r gwaith allweddol hwn.

Cydnabuwyd digwyddiadau sydd wedi dod i'r amlwg dros y flwyddyn ddiwethaf. Hyderwyd bod gweithdrefnau wedi cael eu haddasu, gan sicrhau bod sawl agwedd o'r maes diogelu yn fwy gwydn. Pwysleisiwyd ar yr angen i sicrhau bod yr addasiadau hyn yn gwreiddio ac yn cael dylanwad gwirioneddol ar weithrediad a diwylliant y Cyngor l'r dyfodol. Nodwyd bod y newidiadau hyn wedi deillio yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, a datganwyd yr angen i sicrhau bod y newidiadau hyn yn llwyddo, er mwyn darparu cyfiawnder i'r unigolion hynny oedd wedi cael eu cam-drin dan ofal Pennaeth ysgol yng Ngwynedd. Credir byddai hyn yn sicrhau y byddai'n lleihau unrhyw risgiau y byddai achos cyffelyb yn digwydd eto yn y dyfodol.

Manylwyd ar rai o lwyddiannau sydd wedi bod yn ystod y flwyddyn 2025/26 megis:

- Mae 75.9% o staff y Cyngor wedi cwblhau'r Hyfforddiant Diogelu (cynnydd o 39.5%)
- Mae 100% o ysgolion Gwynedd wedi cyflwyno Hyfforddiant diogelu i'r holl staff (cynnydd o 3%)
- Mae 74.7% o staff y Cyngor wedi cwblhau'r Hyfforddiant VAWDASV (Violence Against Women, Domestic Assault and Sexual Violence) (cynnydd o 15.2%).

Fodd bynnag, cydnabuwyd bod cynnydd i weld mewn niferoedd o gyfeiriadau diogelu oedolion (792 - cynnydd o 42) a chyfeiriadau diogelu plant (8,069 - cynnydd o 284). Mynegwyd tristwch bod camdriniaeth yn parhau i fodoli o fewn Cymdeithas, ond amlygwyd ei fod yn amlygu pwysigrwydd yr hyfforddiant allweddol ac i godi ymwybyddiaeth o'r Cymorth sydd ar gael.

Mynegwyd balchder bod gwelliant mewn amseroedd ymateb i geisiadau, er bod cynnydd yn y galw am gefnogaeth. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod y cynnydd yn y galw am Adnoddau yn rhoi adnoddau'r gwasanaethau dan straen, gan egluro bod hyn yn her estynedig yn genedlaethol. Ymfalchïwyd bod Cyngor Gwynedd wedi Buddsoddi £600,000 ychwanegol i wasanaethau hollbwysig eleni, gan hefyd ddiolch I Lywodraeth Cymru am gefnogaeth ychwanegol.

Tynnwyd sylw bod fersiwn hawn i'w ddeall o'r adroddiad, er mwyn cynnwys gwybodaeth mewn amrywiol dulliau er mwyn sicrhau fod y wybodaeth yn cyrraedd pawb.

Adroddwyd bod y polisi diogelu wedi cael ei ddiweddaru, a'i fod wedi derbyn ystyriaeth fanwl gan y Pwyllgor Craffu Gofal, cyn ei gymeradwyo gan y Cabinet. Pwysleisiwyd bydd newidiadau parhaus yn cael ei wneud i bolisïau er mwyn sicrhau bod y gweithredoedd gorau yn deillio ohonynt.

Atgoffwyd bod gan bob Aelod a Swyddog gyfrifoldebau diogelu, er mwyn sicrhau Gwynedd ddiogel a gwydn a chadarn.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Diolchwyd i'r Panel am adroddiad gonest, mewn cyfnod sydd wedi gweld newidiadau mawr.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd yr Aelod Cabinet dros Addysg nad oes cyfeiriad o fewn yr adroddiad at Uned Brynffynnon. Nodwyd bod yr adroddiad hwn yn manylu ar ddatblygiadau hyd at fis Mawrth 2026, gan nodi nad oedd hanes yr uned wedi dod i lygad y cyhoedd nes yn ddiweddarach yn yr haf. Pwysleisiwyd bydd manylion am yr Uned yn cael ei gynnwys o fewn adroddiad blynyddol y panel ar gyfer 2026/27. Cymerwyd y cyfle i nodi bod y Cyngor yn edifar y dioddef a chamdriniaeth a ddigwyddodd o fewn yr Uned, gan bwysleisio bod ymchwilwyr annibynnol wedi cael eu penodi er mwyn edrych ar bopeth ynghlwm a'r achos, a chyflwyno argymhellion i'r Cyngor I'r dyfodol. Cadarnhawyd bod pob un o'r argymhellion hynny eisoes wedi cael eu cyflawni neu ar drac i'w

cyflawni yn fuan, yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder.

Mynegwyd balchder bod cynnydd i'w weld o fewn sawl agwedd o'r maes diogelu er y llwyth gwaith cynyddol.

Mewn ymateb i ymholiad am eiriad rhan o'r adroddiad a nodir bod 'gofyn i bob adran gynnwys diogelu fel eitem reolaidd ar agenda eu timau rheoli adrannol', sicrhaodd yr Aelod Cabinet dros Addysg nad oedd yn hapus gyda'r derminoleg hwn, gan bwysleisio bod disgwyliad i'r eitem hon gael ei gynnwys fel rhan o bob Agenda. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y cytunai y dylai'r rhan hon o'r adroddiad gael ei addasu i nodi bod y Cyngor yn 'Cyfarwyddo pob adran i gynnwys diogelu fel eitem reolaidd ar agenda eu timau rheoli adrannol'. Ychwanegwyd bod hyn yn addasiad pwysig sydd wedi ei gynnwys ar fel rhan o'r polisi diogelu addasedig. Er hyn, mynegwyd balchder bod y trafodaethau hyn yn cael eu cynnwys ar bob achlysur, boed ar y rhaglen ai peidio.

Nodwyd bod 75.9% o staff wedi cwblhau Hyfforddiant diogelu, gan egluro bod hyn yn ddwbl y gyfradd o'r adroddiad blynyddol blaenorol. Nodwyd bod 87% o Gynghorwyr Gwynedd wedi ei gwblhau. Mewn ymateb i ymholiad ar sut gall y cyfraddau hyn gael eu cynyddu I 100%, eglurodd yr Aelod Cabinet dros Addysg bod swyddog wedi cael ei phenodi i fod yn 'Bencampwr Diogelu'. Eglurwyd y golyga hyn bod y Pencampwr Diogelu yn darparu Hyfforddiant ar gyfer Aelodau staff sydd heb gyfarpar technolegol fel rhan o'u swydd, fel eu bod yn derbyn y wybodaeth a bod cyfraddau Aelodau staff sydd yn cyflawni'r Hyfforddiant yn cynyddu. Cyfeiriwyd hefyd at gysyniadau eraill i gynorthwyo gyda hyn megis darparu offer technegol i leoliadau gwaith, fel bod modd i staff eu rhannu ar gyfer cyflawni hyfforddiant allweddol. Pwysleisiwyd y gobeithir bydd 100% o Aelodau staff a chynghorwyd wedi cyflawni'r Hyfforddiant erbyn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Derbyniwyd sylw bod cynnydd i'w weld mewn nifer o blant sydd yn derby neu addysg adref (282 - cynnydd o 7.63%). Mewn ymateb i ymholiadau, eglurodd yr Aelod Cabinet dros Addysg bod cyfraddau'r niferoedd y plant sydd yn derbyn addysg adref yn amrywiol drwy gydol y flwyddyn gan fod amgylchiadau unigolion yn newidiol. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod cynnydd i'w weld o fewn y flwyddyn hon, gan nodi bod hon yn batrwm a welir yn genedlaethol. Adroddwyd bod y cyfraddau a welir yng Ngwynedd yn gyffelyb i'r cyfraddau hyn, gan sicrhau y dymunir gweld gwelliant yn y dyfodol. Pwysleisiwyd y dymunir gweld holl blant y Sir yn mynychu'r ysgol gan eu bod yn rhoi cefnogaeth ar gyfer anghenion Dysgu ychwanegol, cyflyrau sydd heb gael eu hadnabod neu eu hasesu yn ogystal â chefnogaeth emosiynol a diogelwch. Fodd bynnag, cydnabuwyd nad oes gan y Cyngor y gallu i drawsnewid y sefyllfa hon gan nad oes modd gorfodi unrhyw un i fynd a'u plant i'r ysgol. Adroddwyd nad oes datrysiad cyflym na hawdd iddo a bod ffactorau cyllidol hefyd yn cael eu heffeithio. Sicrhawyd bod y sefyllfa hon yn derbyn ystyriaeth barhaus o fewn Cyfarfodydd herio perfformiad yr adran, gan nodi nad yw'n mynd yn angof.

PENDERFYNWYD Derbyn yr Adroddiad gerbron sy'n adrodd ar waith y Panel Strategol Diogelu ar gyfer y flwyddyn 2025/26.

Nodwyd y Polisi Diogelu diwygiedig.

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2025-26

Eglurwyd bod yr adroddiad yn manylu ar waith y Pwyllgorau Craffu, yn hytrach na manylu ar bynciau unigol a drafodwyd o fewn y Pwyllgorau hynny.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gadeirydd y Fforwm Craffu ar gyfer 2025/26.

Atgoffwyd mai pwrpas Craffu yng Ngwynedd yw cyfrannu at yrru gwelliant mewn gwasanaethau i drigolion Gwynedd. Nodwyd yr angen i'r Pwyllgorau Craffu fod yn ffrind beirniadol i'r Cabinet, gofyn cwestiynau anodd, gwrando ar brofiadau trigolion lleol a chyflwyno argymhellion a ellir arwain at newid.

Adroddwyd bod 43 o eitemau wedi eu Craffu yn ystod 2025/26. Nodwyd bod 44 o Aelodau yn rhan o'r gwaith Craffu hwnnw.
Darparwyd enghreifftiau i dystiolaethu'r gwahaniaeth mae Craffu yn ei gael yng Ngwynedd:
Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi:

- Wrth graffu Strategaeth Ysgolion, gofynnodd yr aelodau i gryfhau'r agweddau diogelu, tlodi, tegwch cymdeithasol, llais rhieni, llais staff, llywodraethant a'r Gymraeg.
- Wrth graffu'r Cynllun Twf, mynegwyd pryder am gyflymder araf datblygiad cynlluniau yn ogystal â'r gwahaniaeth buddsoddiad rhwng ardaloedd gwledig a threfol. Nodwyd bod yr aelodau wedi gofyn i adroddiadau'r dyfodol amlygu'n gliriach y niferoedd o swyddi sydd wedi eu creu yn benodol yng Ngwynedd.
- Wrth graffu'r Gyfundrefn Addysg Drochi, gofynnodd yr aelodau am ystyriaeth bellach i hyd y ddarpariaeth, lles disgyblion a'r posibilrwydd o ddychwelyd ac 5 diwrnod yn y canolfannau.
- Wrth graffu'r Ardoll Twristiaid, pwysleisiodd yr Aelodau'r angen am ymgynghori trylwyr ac eglurder ar sut bydd unrhyw incwm yn cael ei wario.
- Ffurfiwyd Grŵp Tasg a Gorffen i graffu'n fanylach ar Bolisi Iaith Addysg Drafft. Cadarnhawyd bod y gwaith hwnnw wedi cyfrannu at ddiwygio geiriad y polisi, gan atgyfnerthu rôl y Gymraeg fel prif gyfrwng addysg ac amlygu'r disgwyliadau ar ysgolion.

Pwyllgor Craffu Cymunedau

- Wrth graffu'r Gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu, trafododd yr aelodau'r angen i wella perfformiad a chyrraedd targedau Llywodraeth Cymru./ Ystyriwyd hefyd pwysigrwydd addysgu a hysbysu pwysigrwydd ail-gychu er mwyn annog unigolion i ailgylchu'n effeithiol.
- Wrth graffu Teithiau Llesol, holiwyd cwestiynau am gynnal a chadw'r llwybrau, eu diogelwch ac ymholiadau ar sut mae barn pobl leol yn cael ei ystyried.
- Ymfalchïwyd bod Aelod o'r cyhoedd wedi gwneud cais i graffu trefniadau ariannu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur. Yn dilyn

hyn, bu i'r Aelodau graffu llywodraethant a thryloywder y Cynllun cyn argymell i sicrhau mwy o Ymgysylltu gyda'r cyhoedd ac am fwy o wybodaeth ynghylch gwariant o fewn yr adroddiad blynyddol.

Pwyllgor Craffu Gofal

- Wrth graffu trefniadau rhyddhau o'r Ysbyty, tynnwyd sylw y dylid unrhyw ddarpariaeth gynnwys trigolion sydd yn dychwelyd adref o ysbytai y tu hwnt i Wynedd. Nodwyd bod yr Aelodau wedi gofyn am adroddiad cynnydd i amlygu unrhyw newidiadau.
- Wrth graffu Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'I Gilydd, amlygwyd gwerth Cymorth cynnar i blant a theuluoedd gan hefyd dynnu sylw at y risgiau o ddibynnu ar grantiau tymor byr.
- Amlygwyd bod yr Aelodau wedi trafod heriau lletyau neu ddigartrefedd sydd yn wynebu pobl ifanc sydd yn gadael gofal, wrth graffu'r gwasanaethau perthnasol.
- Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen i edrych ar gwynion o fewn y maes gwasanaethau cymdeithasol, a'r gwersi sydd i'w dysgu ohonynt.

Cadarnhawyd bod diogelu plant yn flaenoriaeth i'r Pwyllgor Craffu Gofal a'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Cynhaliwyd Cyfarfodydd arbennig er mwyn Craffu Cynllun Ymateb y Cyngor yn dilyn adroddiad Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder. Datganwyd bod 37 o argymhellion wedi deillio o'r Cyfarfodydd arbennig hynny, er sylw'r Cabinet. Atgoffwyd bod y Cabinet wedi mabwysiadu Cynllun Ymateb diwygiedig ym mis Mawrth 2026 ac mae'r adroddiad blynyddol perthnasol yn manylu ar y newidiadau a waned yn dilyn y broses Craffu.

Nodwyd bod ymchwiliad Craffu ar drefniadau diogelu mewn ysgolion yn mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn, gydag 11 o ysgolion ac 88 o Aelodau staff a llywodraethwyr yn cymryd rhan yn y trafodaethau. Atgoffwyd bod adroddiad yr ymchwiliad wedi ei gyhoeddi gan nodi bydd yr Aelodau yn olrhain yr argymhellion gan ystyried os yw'r argymhellion wedi cael eu gweithredu.

Tynnwyd sylw at newid arwyddocaol i drefniadau herio perfformiad yn ystod y flwyddyn, gan egluro bod adroddiadau llawn yn dod gerbron y Pwyllgorau dwywaith y flwyddyn. Eglurwyd bod hyn yn rhoi cyfle I Aelodau herio Aelodau Cabinet a phrif swyddogion adrannau yn gyhoeddus tra hefyd yn adnabod materion sydd angen eu Craffu ymhellach. Fodd bynnag, mae'r trefniadau hyn wedi cael effaith sylweddol ar lwyth gwaith y Pwyllgorau, gan gadarnhau bod hyn yn cael ei asesu'n barhaus er mwyn sicrhau bod lle digonol o fewn y rhaglen waith i graffu materion pwysig, ar yr adeg ble all Craffu wneud y mwyaf o wahaniaeth.

Cadarnhawyd bod yr Aelodau Craffu yn hunanasesu'r gwaith gan nodi nad yw'r Pwyllgorau wedi nodi eu bod wedi craffu'n effeithiol ar bob achlysur. Pwysleisiwyd mai nod yr hunanasesu hwn yw sicrhau bod yr Aelodau yn cofio am yr angen i wneud argymhellion priodol a all gael eu monitro dros amser.

Diolchwyd i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion, Aelodau, Swyddogion a phawb sydd wedi cyfrannu at waith allweddol y Pwyllgorau Craffu

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Diolchwyd am yr adroddiad blynyddol gan fynegi balchder bod gwaith cadarnhaol wedi cael ei gyflawni er lles trigolion Gwynedd.

Derbyniwyd sylwadau ynghylch Cadeiryddiaeth y Pwyllgorau Craffu, gan ystyried yr angen i sicrhau bod amrywiol grwpiau gwleidyddol yn derbyn cynrychiolaeth deg o fewn rolau Craffu. Pryderwyd bod modd ystyried bod yr un grŵp gwleidyddol yn arwain drwy'r Cabinet a Phwyllgorau Craffu gan ei wneud yn annelwig os yw herio gwirioneddol a thryloyw yn cael ei gyflawni.

Adroddwyd bod Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu bellach yn mynychu Cyfarfodydd y Cabinet i gyflwyno sylwadau'r Aelodau ar faterion penodol. Nododd Arweinydd y Cyngor bod y cyfraniadau hynny yn werthfawr iawn i drafodaethau'r Cabinet.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

10. RHYBUDDION O GYNNIG

A. Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig gan y Cynghorydd Cai Larsen o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i heiliwyd.

Gosododd yr Aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi-

- Nodwyd bod rhag o garafanau teithiol yn defnyddio cilfannau a meysydd parcio fel llefydd i aros dros nos a chyfnodau estynedig.
- Nid yw'r cynnig yn erbyn cartrefi modur nac ymwelwyr, gan eu bod yn cyfrannu i'r economi leol. Nodwyd bod y cynnig yn amlygu'r angen iddynt ddefnyddio adnoddau sydd ar eu cyfer gan barchu'r ardaloedd maent yn ymweld â hwy.
- Gobeithiai byddai'r cynnig hwn yn gwarchod buddiannau'r Cyngor, ymwelwyr cartrefi modur, ymwelwyr eraill a phobl leol.
- Amlygwyd bod y broblem hon yn effeithio ar gymunedau ledled y Sir. Datganwyd nad yw darparu cyfleusterau yn ddigon, gan nodi'r angen am reolaeth a gorfodaeth resymol i gadarnhau cydymffurfiaeth.
- Arweinir y broblem hon at sgil effeithiau eraill megis gwastraff yn cael ei adael ar ôl, pobl yn camddefnyddio'r ardal a thoiledau cemegol yn cael eu gwagio i afonydd. Golyga hyn fod y broblem yn cael effaith amgylcheddol, iechyd cyhoeddus ac yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd bywyd trigolion.
- Atgoffwyd bod y Cyngor eisoes wedi Buddsoddi mewn arosfannau pwrpasol gyda chyfleusterau priodol, ond mae'r diffyg rheolaeth mewn mannau cyhoeddus am ddim, yn tanseilio'r buddsoddiad hwnnw. Ymhellach, mynegwyd annhegwch i fusnesau preifat sydd yn darparu'r cyfleusterau hyn.
- Cydnabuwyd nad oes gan y Cyngor y capasiti i weithredu rheolaeth ym mhob lleoliad yn y Sir yn ddyddiol, ond pwysleisiwyd nad yw hynny yn sail i beidio rheoleiddio'r sefyllfa o gwbl.
- Nodwyd os yw trigolion yn torri rheolau parcio, mae'n debygol bydd camau gorfodaeth yn cael eu cymryd. Er y dylid gweithredu'r

trefniadau hyn, mae'n amlygu'r angen i gyflwyno rheolaeth gyffelyb ar gyfer carafanau teithiol.
- Dymunir cyflwyno cynllun i fynd i'r afael â'r her, gan flaenoriaethu ardaloedd amgylcheddol sensitive a sefyllfaoedd ble mae effaith gwirioneddol ar fywydau trigolion lleol.

Mynegwyd cefnogaeth i'r cynnig gan aelodau gan nodi:
- Mynegwyd bod Aelodau yn rhannu pryderon Y Cynghorydd Cai Larsen
- Nodwyd nad oes gan y Cyngor digon o rym o fewn y maes hwn gan fod talu ffi am gamwedd parcio yn gallu costio llai na chostau defnyddio maes gwersylla.
- Gofyn i Aelodau a Swyddogion ystyried sut mae awdurdodau eraill yn mynd i'r afael a'r her hon.
- Cytunwyd byddai'r hyn a nodwyd yn y cynnig yn arwain at gydbwysedd rhwng trigolion ac ymwelwyr.
- Pwysleisiwyd bod yr Aelodau yn gefnogol iawn o dwristiaeth o fewn yr Ardal.
- Cadarnhawyd nad yw'r cynnig na'r gefnogaeth yn bwriadu erlid ymwelwyr sydd yn defnyddio carafanau teithiol, dim ond i reoleiddio'r defnydd a sicrhau diogelwch a thegwch.
- Trafodwyd y diffiniadau ynghylch parcio a gwersylla, gan ystyried gall amlygu'r gwahaniaeth hyn fod yn ddefnyddiol wrth ystyried unrhyw weithrediad.
- Cytunwyd gyda'r cysyniad o dargedu rheoleiddio a gorfodaeth mewn ardaloedd penodol.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-

Mae'r Cyngor hwn:

Yn nodi'r cynnydd yn nifer y cartrefi modur a faniau gwersylla sy'n defnyddio lleoliadau ar draws Gwynedd i barcio ac aros dros nos, gan gynnwys cilfannau, meysydd parcio, ardaloedd arfordirol a mannau prydferth;

Yn cydnabod y cyfraniad pwysig y gall ymwelwyr sy'n defnyddio cartrefi modur a faniau gwersylla ei wneud i economi Gwynedd, ac yn croesawu ymwelwyr sy'n defnyddio cyfleusterau priodol ac sy'n parchu ein cymunedau a'n hamgylchedd;

Yn mynegi pryder, fodd bynnag, ynghylch achosion lle mae cerbydau'n aros am gyfnodau estynedig mewn mannau nad ydynt wedi eu bwriadu ar gyfer hynny, gan feddiannu mannau parcio, achosi problemau i drigolion a defnyddwyr eraill, a rhoi pwysau ar rai o ardaloedd mwyaf sensitif a phoblogaidd y sir;

Yn nodi bod y Cyngor eisoes wedi sefydlu safleoedd Arosfannau pwrpasol ar gyfer cartrefi modur, ond bod problemau parcio ac aros dros nos amhriodol yn parhau mewn nifer o leoliadau;

Yn cydnabod bod cyfyngiadau ar gapasiti ac adnoddau dynol y Cyngor yn gallu ei gwneud yn anodd gweithredu ym mhob lleoliad ar yr un pryd, ond nid yw'n derbyn y dylai diffyg capasiti i weithredu ym mhobman olygu na ellir mynd i'r afael â phroblemau amlwg a pharhaus mewn lleoliadau penodol.

Felly, mae'r Cyngor yn galw ar y Cabinet a'r Aelod Cabinet perthnasol i fynd i'r afael â'r problemau sy'n deillio o barcio ac aros dros nos amhriodol gan gartrefi modur a faniau gwersylla ar draws Gwynedd, ac i ystyried pa gamau y gellir eu cymryd i ddod â gwell rheolaeth ar y sefyllfa.

B. Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig gan y Cynghorydd Paul Rowlinson o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i heiliwyd.

Gosododd yr Aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi-

- Pwysleisiwyd bod sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael hwyl y tu allan i'w cartrefi yn bwysig iawn, ond bod nifer o bryderon wedi amlygu bod e-sgwteri yn gallu bod yn beryglus.
- Adroddwyd bod defnyddio e-sgwteri ar ffyrdd cyhoeddus yn anghyfreithlon.
- Pryderwyd bod rhai e-sgwteri yn gallu teithio mor gyflym â 70mya, a bod adroddiadau o fwy nag un person yn eu defnyddio ar unwaith, a defnyddwyr yn aml ddim yn gwisgo helmed. Er nad yw'r e-sgwteri yn debygol o deithio mor gyflym â hynny, maent yn parhau i fod yn berygl, yn enwedig yn nwylo pobl ifanc a defnyddwyr dibrofiad.
- Tynnwyd sylw at risg o berygl i drigolion eraill wrth i'r e-sgwteri gael eu defnyddio ar balmentydd, gan roi cerddwyr a phobl fregus mewn risg.
- Diffiniwyd e-sgwteri fel cerbyd modur/mecanyddol, a olygir bod angen trwydded i'w gyrru, bod wedi eich yswirio a thalu trethiant cerbyd. Nid yw'n bosib cael yswiriant a thrwydded e-sgwteri ar hyn o bryd ac o'r herwydd, ni ddylent gael eu defnyddio ar ffyrdd a llwybrau cyhoeddus. Pwysleisiwyd nad yw'n anghyfreithlon prynu, berchen neu werthu e-sgwteri.
- Yr unig fodd o'u defnyddio yn gyfreithiol yw ar dir preifat gyda chaniatâd y tirfeddiannwr.
- Adroddwyd y gallai'r heddlu atal y sgwteri os byddent yn cael eu dal yn gyrru ar y ffyrdd, yn ogystal â rhoi hyd at 6 pwynt ar drwydded gyrru a £300 am ddefnyddio cerbyd heb ei drwyddedu ar ffyrdd cyhoeddus. Ymhelaethwyd nad oes gan nifer o ddefnyddwyr e-sgwteri drwydded yrru, a arweinir at drosedd ychwanegol o yrru cerbyd ar ffordd gyhoeddus heb drwydded, a byddai unrhyw bwyntiau cosb yn cael ei ychwanegu i'w trwydded pan fyddent gydag un.
- Cadarnhawyd bod yr heddlu yn gweithio i godi ymwybyddiaeth ac addysgu am e-sgwteri drwy ddefnydd cyfryngau cymdeithasol a phosteri er mwyn sicrhau diogelwch ar y ffyrdd.
- Mynegwyd dyhead i'r Cyngor drefnu ymgyrch cyhoeddusrwydd i amlygu peryglon e-sgwteri, a'r ffaith nad yw'n bosib eu defnyddio'n gyfreithlon ar ffyrdd cyhoeddus. Rhannwyd dyhead i gydweithio gydag ysgolion y Sir i ategu'r neges honno.

- Gofynnwyd i'r Cyngor gynnal trafodaethau gyda llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU I ofyn iddynt fynd i'r afael a'r her, gan nad oes gan y Cyngor bwerau uniongyrchol i ddatrys yr her genedlaethol hon. Cynigwyd rhai datrysiadau megis gwell rheoliadau, sicrhau bod rhybuddion yn cael ei nodi wrth eu prynu

Mynegwyd cefnogaeth frwd i'r cynnig gan Aelodau.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-

Mae'r Cyngor

- **yn pryderu am y nifer o blant a phobl ifanc sy'n reidio e-sgwteri ar balmentydd a ffyrdd cyhoeddus;**
- **yn credu bod hyn yn peryglu diogelwch y rhai sy'n eu defnyddio a diogelwch cerddwyr, yn enwedig y rhai sydd â nam ar eu golwg;**
- **yn nodi bod e-sgwteri yn dod o fewn y diffiniad cyfreithiol o 'gerbyd modur'. O ganlyniad, maent yn destun yr un gofynion ag sy'n ofynnol ar gyfer cerbydau modur eraill, megis eu trwyddedu a'u hyswirio a'r angen i fod â thrwydded yrru i'w defnyddio ar ffyrdd cyhoeddus. O ganlyniad, ni ellir eu defnyddio yn gyfreithlon heblaw ar dir preifat gyda chaniatâd y tirfeddiannwr;**
- **yn nodi bod e-sgwteri yn cael eu treialu gan lywodraeth y DG ac fe'u caniateir ar ffyrdd o fewn rhai ardaloedd ond nid yw'r un o'r rhain o fewn Gwynedd;**
- **yn credu nad yw llawer o rieni a phobl ifanc yn sylweddoli bod defnyddio e-sgwteri ar ffyrdd cyhoeddus yn anghyfreithlon ac y gall yr heddlu atafaelu'r e-sgwter a chyflwyno adroddiad trosedd traffig sef 'gyrru cerbyd modur heb yswiriant trydydd parti', gan arwain at ddirwy o £300 a 6 phwynt ar drwydded yrru'r gyrrwr.**

Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG i ystyried pa gamau y gallent eu cymryd / pa reoliadau y gallent eu cyflwyno, er mwyn mynd i'r afael â'r broblem.

13. YMATEBION / DIWEDDARIADAU I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL

Cyflwynwyd – er gwybodaeth:-
Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Huw Rowlands i gyfarfod 2 Gorffennaf 2026 o'r Cyngor ynglŷn â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:30 a daeth i ben am 16:20

CADEIRYDD